



Hyfforddiant Diogelu

Canllaw i hyfforddiant Hub Cymru Africa, gan gynnwys dolenni i hyfforddiant cyn cael gwaith, dolenni i gofrestru, a dolenni sy'n cyfeirio at gyrsiau hyfforddi ar-lein eraill.

Cyflwyniad

Mae Hub Cymru Africa yn cynnal hyfforddiant rheolaidd ym maes diogelu ar gyfer cymuned Cymru ac Affrica. Mae'r hyfforddiant hwn sydd am ddim, yn cael ei gynnal ar-lein trwy Zoom, ac mae angen cymryd rhan weithredol er mwyn creu'r amgylchedd dysgu gorau, ac elwa ohono.

Rydym yn darparu pedair lefel o hyfforddiant:

1. Hanfodion Diogelu: i bob o staff, gwirfoddolwr a staff partner sydd heb gwblhau hyfforddiant Diogelu eto mewn cyd-destun rhyngwladol.

Bydd yr hyfforddiant hwn yn tywys cyfranogwyr drwy'r arferion a'r gofynion Diogelu hanfodol ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio mewn undod byd-eang â phartneriaid yn Affrica. Bydd yr hyfforddiant yn:

- Diffinio diogelu o fewn cyd-destun rhyngwladol, ac o fewn y cyd-destun yng Nghymru
- Esbonio safonau diogelu byd-eang a sut i'w bodloni
- Trafod sefyllfaoedd ac ymddygiadau sy'n ymwneud â phryder ynghylch diogelu
- Esbonio'r cylch diogelu, a'r tair colofn atal, adrodd ac ymateb, a sut i gymhwyso'r rhain yn eich sefydliad gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar oroesi
- Rhannu adnoddau i asesu risg a nodi bylchau mewn ymarfer.
- Rhannu templedi ar gyfer dogfennau allweddol y bydd angen i chi gael yn eu lle i gefnogi'r arferion gorau o ran atal, ymateb ac adrodd.



2. Diogelu ar gyfer Pwyntiau Ffocws ac Ymddiriedolwyr: Mae Hanfodion Diogelu yn ragofyniad.

Mae'r hyfforddiant hwn yn adeiladu ar yr hyfforddiant hanfodion, ac yn canolbwyntio ar:

- Rolau a chyfrifoldebau'r "Pwynt Ffocws Diogelu"
- Rolau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â diogelu, gan gynnwys cyfrifoldebau penodol yr "Ymddiriedolwr Diogelu"
- Arwein yddiaeth, ac ar hwyluso diwylliant sefydliadol diogel
- Ymateb i ddigwyddiad, gan gynnwys rheoli ymchwiliadau
- Adrodd, gan gynnwys adrodd i'r Comisiwn Elusennau
- Gofynion rhoddwyr mewn perthynas â diogelu
- Rhannu templedi ar gyfer dogfennau pwysig y bydd angen i chi gael yn eu lle i gefnogi'r arferion gorau o ran atal, ymateb ac adrodd.

3. Hyfforddiant Gloywi ar Ddiogelu

Ar gyfer unrhyw un sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac sydd eisiau gloywi eu hymarfer trwy drafod astudiaethau achos.

Gallwch hefyd gyflwyno eich astudiaeth achos eich hun i'w thrafod, drwy anfon e-bost atom ar advice@hubcymruafrica.wales.

4. Diogelu Partneriaethau Iechyd

Rydym hefyd yn cynnal hyfforddiant sy'n benodol i bartneriaethau Iechyd ar gais. E-bostiwch ni i holi am hyn ar advice@hubcymruafrica.wales

Gallwch archebu eich dyddiad hyfforddiant nesaf yma: hubcymruafrica.wales/events

Mae Hub Cymru Africa a CGGC yn cynnig Cymorthfeydd Diogelu 1:1 hefyd i drafod unrhyw agwedd ar eich ymarfer. Gallwch ofyn am sesiwn ar unrhyw adeg drwy e-bostio advice@hubcymruafrica.wales



Darparwyr hyfforddiant Diogelu eraill

Mae CGGC yn cynnal hyfforddiant rheolaidd i ymddiriedolwyr sefydliadau yng Nghymru. Gallwch gael mwy o wybodaeth yma.

Mae'r tîm Ymgysylltu Rhyngwladol yn y Comisiwn Elusennau yn cynnal sesiynau diogelu rheolaidd ar gyfer ymddiriedolwyr a staff gweithredol hefyd. Gallwch gofrestru am wybodaeth [yma](#).

Hyfforddiant ar-lein

Pwnc	Darparwr a chost	Hyd yr amser	Oes cyfieithiadau ar gael?
The Safeguarding Journey - Gellir ei ddefnyddio gan sefydliadau pan fyddant yn cynnal hyfforddiant mewnol ar ddiogelu, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar gyfer sesiynau byrrach.	Hwb Cymorth Diogelu Mae angen cyfrif am ddim Cwrs am ddim.	2-4 awr	Sleidiau wedi'u cyfieithu i lawer o ieithoedd gan gynnwys Swahili, Hawsa, Somalieg, Arabeg.
Hanfodion Diogelu Cwrs ar-lein y gallwch ei wneud yn eich amser eich hun.	Kaya Connect/ Humanitarian Leadership Academy Mae angen cyfrif am ddim Cwrs am ddim.	6 modiwl, 1.5 awr	Arabeg, Ffrangeg a Sbaeneg
Safeguarding Focal Point training - datblygwyd gan International Medical Corps and Concern Worldwide.	Hwb Adnoddau a Chymorth Diogelu Mae angen cyfrif am ddim Cwrs am ddim	4 modiwl, 3 awr yr un	Saesneg yn unig



<p>Mainstreaming Sexual Abuse Prevention and Response</p> <p>Mae hyfforddiant rhyngweithio yn cwmpasu'r elfennau sylfaenol y dylai pob sefydliad eu cael i atal ac ymateb yn ddigonol i gamfanteisio a cham-drin rhywiol (SEA) mewn cymunedau.</p>	<p>Disaster Ready</p> <p>Mae angen cyfrif am ddim</p> <p>Cwrs am ddim.</p>	<p>35 mun</p>	<p>Saesneg yn unig</p>
<p>Safe Programmes Training Package</p> <p>Deunyddiau i Hwylusydd eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant mewnol.</p>	<p>Safeguarding Resource & Support Hub - Nigeria</p>	<p>4.5 awr</p>	<p>Swahili, Ffrangeg, Arabeg</p>
<p>Course materials for preventing sexual exploitation and abuse</p>	<p>Rhyngweithio</p>	<p>Cyfres o fodiwlau i'w defnyddio mewn hyfforddiant mewnol</p>	<p>Mae deunyddiau ar gael hefyd mewn Arabeg, Portiwgeeg, Sbaeneg, Wcraneg a Swahili.</p>
<p>Cyflwyniad i Ddiogelu yn y Sector Gwirfoddol yng Nghymru.</p>	<p>Cefnogi Trydydd Sector Cymru</p> <p>Mae angen i chi gofrestru eich manylion i fewngofnodi Hyfforddiant am ddim.</p>	<p>75 munud</p>	<p>Cymraeg a Saesneg</p>